YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1886. [RHIF 62.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYLEDSWYDDAU MOESOL YR IEUAINC.

GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS, M.A., (GWILYM MARLES).

LLITH III.

DYCHWELAF i'ch anerch unwaith etto, gan obeithio cael eich gwrandawiad mwyaf astud, fel y mae y pwnc mewn llaw yn hawlio.

Wrth eich dyledswyddau *moesol* y golygaf eich dyledswyddau fel aelodau o gymdeithas—y modd yr ydych i ymddwyn yn eich cyssylltiad ag ereill. Mae y maes hwn etto yn helaeth, ac nis gallaf obeithio gwneyd mwy nâ nodi allan rai o blith llawer o bethau. Soniwn weithiau am hwn a hwn fel dyn moesol. Os arferwn ni y gair yn ei ystyr iawn—i gymmeryd i fewn wahanol ranau ymddygiad priodol y naill ddyn at y llall, nid bychan o glod yw hyn, ac nid bychan o beth yw ffurfio i ni ein hunain y fath nodweddiad. Mae moesoldeb a chrefydd yn tarddu oddiar yr un gwreiddyn mawr—cariad. Cariad at ddyn yw moesoldeb—at Dduw yw crefydd. Ond chwi a welwch fod y naill yn agos gyssylltiedig â'r llall—y naill yn rhedeg yn ddiarwybod i'r llall.

Y peth cyntaf a gaf nodi yw, *Parch at rieni.* Mae hyn yn rhy bwysig i'w adael allan. Myn rhai hen bobl ag sy wedi sylwi llawer ar gwrs y byd fod y rhinwedd brydferth hon mewn pobl ieuainc yn myned allan o arferiad. Gobeithiaf nad gwir hyn. Ond os nad gwir, nis gall dim fod o le yn fy ngwaith yn dwyn y ddyledswydd ar gof i chwi. Nid oes eisieu profi fod hon yn

DDYLEDSWYDD NATURIOL—

yn codi o'r berthynas naturiol rhwng rhieni a phlant. Gwel pob un fod sail iddi yn natur pethau, o osodiad y Creawdwr da. Mae hyd y

nod cenedloedd barbaraidd yn cynnwys y ddyledswydd hon fel rhan o'u moesoldeb. Yn mhlith yr Indiaid Americanaidd, mae parch mawr yn cael ei ddangos i rieni. Dodai yr Iuddewon fawr bwys ar hyn; mae pob plentyn yn gwybod y pummed gorchymyn, "Anrhydedda dy dad a'th fam." A phan oedd yr Iuddewon yn oes lygredig yr Iachawdwr—pan yr oeddynt wedi myned i wyrdroi a diystyru llawer o ordeiniadau cyfiawn a dynol cyfraith Moses yn ffafr rhyw draddodiadau gweigion, yn yspeilio eu rhieni o'r hyn yr oedd arnynt angen am dano, a'r hyn oedd eu rhan ddyledus, o dan esgus eu bod wedi eu neillduo at wasanaeth crefyddol, derbyniasant gerydd llym oddiar law yr Iesu—"Fel hyn y gwnaethoch orchymyn Duw yn ddirym trwy eich traddodiad eich hun."

Buoch ryw amser, os nad ydych yn awr, yn pwyso ar eich rhieni am y cwbl oll. Diymgeledd iawn—y mwyaf felly o bob creadur—yw dyn ar ddechreu ei oes. Derbyn y cwbl y mae, ac y mae Rhagluniaeth wedi darpar yr ymgeledd angenrheidiol yn serch naturiol y rhieni. Ni wel y fam dyner-galon un drafferth na gofal yn ormod, na'r tad diwyd un llafur yn rhy galed tuag at wasanaethu ei blentyn. Serch y gall fod mil o ofalon a phryderon yn gwasgu ar eu calon lwythog, bydd gwên bob amser yn ystôr ar gyfer yr un bychan. Ond ni waeth i ni heb ymhelaethu ar hyn. Dim ond i chwi gwestiyno eich hunain, a dwyn i gof, nid yr oll—nis gellwch—ond rhyw ran fechan o'r tiriondeb a dderbyniasoch oddiar law eich rhieni, ni wâd yr un o honoch nad rhesymol i chwi ddangos parch iddynt. Chwi wyddoch fod llwybr maith a thrafferthus o fabandod i ieuenctid, a gwyddoch hefyd pwy yn benaf fu yn eich arwain ar hyd-ddo, gan eich gwylio yn serchus ar bob cam.

Pa fodd i'w hanrhydeddu? Dangoswch ufudd-dod iddynt yn yr hyn a geisiant. Dysgwch ymostwng i'w hawdurdod. Cofiwch mai eu gair hwy sydd i fod yn ben. Ymgynghorwch â hwy hyd y galloch yn mhob peth. Gwyddant hwy fwy nag y gellwch chwi wybod etto. Maent hwy yn gyfarwydd â llawer o droion y byd ag ydynt hollol ddyeithr i chwi etto. Nid heb gasglu llawer o ddoethineb y brithodd gwallt ac yr aeth gruddiau eich rhieni mor rhychiog. Mae'r byd yn myned rhagddo, mae'n wir, ac nid yw pob hen gynllun y cynllun goreu. Etto,

MYNWCH WYBOD YR HEN GYNLLUN

cyn gwneyd eich dewisiad. Dangoswch gymmaint â hyny, o leiaf, o barch i'ch rhieni. Yn mhob peth mae rhwymau arnoch i fod yn dirion o'u teimladau, a gofalu peidio achosi un loes na siomedigaeth ddiangenrhaid. Maent, bellach, dichon, mewn gwth o oedran. Byddwch dyner atynt yn eu llesgedd a'u gwendid. Dangoswch eich cydymdeimlad â hwy. Os ydynt dlodion yn y byd, chwi ddylech wneyd eich goreu i'w hymgeleddu, a hyn pe yn ddim ond ad-daliad am a dderbyniasoch chwi yn eich gwendid a'ch tlodi gynt. Na adewch iddynt deimlo eu bod ar y ffordd mewn un wedd, ond fod y cornel cynhesaf a'r tamaid goreu yn eu dysgwyl hwy bob amser, y gair

tyneraf, yr olwg fwyaf serchus i'w croesawi. Nid felly y mae hi, ysywaeth, ar bob pryd. Darllenais, unwaith, am hen wr yn byw gyda'i ferch a'i fab-yn-nghyfraith. Yr oedd wedi myned yn mhell mewn dyddiau, ei olwg yn wan, ei law yn grynedig, yn analluog i gymmeryd ei ymborth megys cynt. Yr oedd y llaw wedi myned yn rhy grynedig i wneyd ei gwaith yn iawn, a mynych y cwympai tamaid o dan y bwrdd. Am hyn, edrychai'r ferch a'r mab-yn-nghyfraith yn sarug arno, a chelai ambell gerydd garw. Nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond dyoddef yn dawel. Yr oedd iddo ŵyr bach yn y teulu yn sylwi ar bob peth, yn ol arfer plant. Clywai'r achwyn aml ar ei dadcu, a theimlai'r gwr bach drosto. Un diwrnod, wrth y tân, gwelai ei dad a'i fam ef yn ddiwyd iawn yn naddu ac yn ceisio dodi rhyw goed at eu gilydd. Gofynasant iddo beth oedd yn wneyd. "Gwneyd cafn pren i chwi eich dau i fwyta'ch bwyd o hono wedi'r eloch yn hen fel nhadcu." Teimlasant yn llym, gwelsant eu bod yn euog, a dywed yr hanes i hyn o gerydd fod yn foddion i'w dwyn i fod yn fwy caredig rhagllaw i'r hen wr. Ac yn gyssylltiedig â pharch i rieni dymunwn goffa un gair: dylech ddangos parch i *henaint* o bob gradd a sefyllfa. Coron anrhydeddus yw penllwydni. "Yr hen a wyr a'r ieuanc a debyg." Na ddyweder byth am danoch eich bod yn ddibris ac yn ddiystyr o hen bobl, ond yn rhoddi iddynt y parch a'r flaenoriaeth ag sydd yn ddyledus iddynt.

2. *Bydduch yn fanwl o ofalus gyda dweyd y gwir.* Nid oes gymmeriad anharddach, mwy diaddewid a diobaith, nâ mab neu ferch ieuanc ddiofal gyda hyn o beth. "Ffiaidd gan yr Arglwydd wefusau celwyddog," medd y gwr doeth. Rhoddwyd iaith i ni i egluro ac nid i guddio ein meddyliau—i ddweyd hyd y gwyddom ni, yn ol y bo galwad, am bob peth. Dyna yw dweyd y gwir—darlunio peth fel y mae, ac nid rhoddi lliw arall arno. Mae yn gwestiwn cryn bwysig pa fodd y daw dynion ieuainc i esgeuluso eu dyledswydd yn hyn? Un gonest yw'r plentyn: dywed ef hyd eithaf ei wybodaeth am bob peth yn gywir, fel mai y casgliad naturiol yw fod rhyw ddylanwad drwg wedi ei ddwyn i effeithio arno mewn rhyw ffordd, trwy esiampl ddrwg ereill—plant yr ardal, neu rywrai yn y teulu; ac yn wir, a raid dim dweyd fod bai fynychaf, os nad bob amser, yn gorwedd wrth ddrws y rhieni lle bo hyn o arferiad wedi ei ffurfio? Buont yn esgeulus o'u dyledswydd. Nid oeddynt yn fanwl eu hunain gyda dweyd y gwir. Nid oedd y fam yn arfer dweyd y gwir bob amser wrth y tad, na'r tad wrth y fam; deuai'r plentyn gan bwyll i sylwi ar hyn. Rhai cyflym yw plant i ddodi pethau at eu gilydd, a thynu eu casgliad eu hunain. Clywai'r fam yn dweyd neu'r tad yn dweyd mai fel hyn a'r fel oedd y peth pan y gwyddai'r plentyn fel arall. Yn fynych, bydd y tad neu'r fam yn hyfforddi'r plentyn mewn rhyw dwyll a ystyriant hwy yn ddiniwed; ond y gwir yw,

NID OES UN TWYLL

—y lleiaf—yn ddiniwed. Mae gwenwyn ynddo i feddwl tyner plentyn. Mae ei feddwl ef, fel cwyr toddedig, yn derbyn pob argraff yn rhwydd

ac yn ddwfn iawn. Ni ddylai'r gair lleiaf o anwiredd gael ei oddef, llawer llai ei ddysgu fel arferiad iddo. Yn fynych, dywedir wrth blentyn, "Na 'wed wrth dy dad," "Na 'wed wrth dy fam." Os gofynir iddo, beth sy' gan y diniwed i'w wneyd—mae rhwng dau dân—dweyd celwydd neu dynu gwg un o'r ddau. Ni ddylai hyn fod. Ni ddylai dim gael ei guddio rhag plentyn. Dylai'r oll fod yn ngwyneb haul a llygad goleuni, os am iddo gadw ei ddiniweidrwydd yn ddianaf. Mae pob hedyn o anwiredd yn sicr o ddwyn ffrwyth ar ei ganfed maes o law. Yr oeddwn I gyneu yn annog pobl ieuainc i fod yn ufudd i'w rhieni, ond rhaid i mi dynu fy ngeiriau yn ol mor bell a hyn: os dygwydd i un o honynt geisio genych i ddweyd yr hyn nid yw wir, anufuddhewch, a dyoddefwch y canlyniadau'n hytrach! 'Does dim hawl gan neb i ofyn i chwi na minau i droseddu cyfraith Duw. Ufuddhau i rieni—da, ond ufuddhau i'r Tad Mawr—ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion.

Yn awr, nis gwn pa ryw ystaen lygredig o dwyll a all fod wedi glynu wrth rai o honoch o'r natur hyn o'ch blynyddoedd boreuaf. Nid yw wedi myned yn rhy hwyr i ddiwygio yn awr. Serch fod arferion boreu yn wydn iawn i ollwng gafael, mae modd i'w hysgwyd ymaith fel yr ysgydwodd Paul y wiber oddiar ei law ys llawer dydd. Mae yn wir mai eich rhieni sy'n atebol am yr arferion a ffurfiasoch pan yn blant; ond yn awr, wedi i chwi dd'od i oedran synwyr, byddwch chwi yn gyfranog â hwynt o'r cyfrifoldeb, a'ch dyledswydd yw gwneyd eich goreu i ddadwneyd pob peth sydd o le. Na feddyliwch am funyd fod hyn yn anmhossibl. Mae yn mhwer dyn i wneyd i fyny i raddau pell am golledion blaenorol. Mae modd unioni'r pren tra bo ystwythder ieuenctid heb ei adael.

Ond mi a hyderaf fod gofal priodol wedi ei arfer tuag atoch oll er yn blant yn y peth hwn. Ond cofiwch, mae genych waith mawr a phwysig i gadw eich diniweidrwydd a'ch purdeb yn ddilychwin. Fe wed rhywun, "Nid wyf fi byth yn arfer dweyd anwiredd." Wel, rhaid bod dyn yn ddrwg i'r pen, wedi hir gynnefino â'r drwg, cyn y llunio anwiredd noeth—cyn dyfeisio stori ddisail, cyn yr elo dros y ffordd i adrodd celwydd. Ond y pwnc yw, eich bod mor gadarn eich rhinwedd, fel na fo i chwi beidio â dweyd y gwir pan fo rhyw demtasiwn gref i hyn yn ymgynnyg. Profedigaeth—dyna sy'n profi dyn. Y pryd hwnw

"Hyspys y dengys y dyn
O ba radd y bo'i wreiddyn."

Nid oes braidd ddiolch i ddyn am ddweyd y gwir os na fydd rhyw gymhelliad i'r gwrthwyneb mewn ffordd o elw, neu barch, neu ddiangfa o ryw fagl y bo wedi tynu ei hun iddi. *Dyna* y pryd y ceir gweled pa un ai cariad at y gwir sy drechaf ai peidio. "Ie, rhaid i mi ddweyd rhywbeth i glirio fy hun." Ffolineb dall! Na; 'raid i ti ddim dweyd anwiredd i glirio dy hunan. Clirio glân yw gwneyd un drwg er clogynu drwg arall. Fel pe dywedai dyn, "Mi ymdreiglaf yn y llaid er glanhau fy hunan." Dyna'r fath glirio yw dweyd anwiredd i guddio

bai. "Ie, 'wed'swn I 'mo'r anwiredd pe'n gwybod y daethai'r cyfan i'r golwg." Ie, ie, pwy dy gred? Mae hi'n dygwydd i ddyn anwireddus mai y tâl a ga yw ei annghredu hyd y nod pan ddywedo'r gwir. Ond heblaw hyn, meddyliwch pa beth sydd yn gynnwysedig yn y geiriau hyna: "'Wed'swn I ddim anwiredd pe'n gwybod y daethai'r cyfan i'r golwg." Dyna egwyddor. Fe ddywedai hwna lon'd byd o anwireddau pe'n gwybod na ddeuent i'r golwg. Nid ofn y drwg sydd ar hwna, ond ofn dynion—nid cywilydd ei fod yn ymhalogi trwy ei gyfrinach â'r drwg, ond cywilydd fod dynion yn dyfod i wybod ei wir gymmeriad—nid ofn Duw, ond ofn slafaidd dynion. "Mi ymddygais I fel arfer: mi wadais, mi dyngais, fel Pedr gynt, na wyddwn I ddim am y peth; mi eisteddais yn y cymmundeb fel arferol, oblegyd 'do'wn I ddim yn meddwl y daethai'r peth i'r golwg." Os oes

ATHEIST YN Y BYD,

un yn siarad fel hyna yw hwnw. Dim mater fod y Duw mawr yn gwybod, wedi gweled, ac wedi clywed y cwbl o'r dechreu, dim gwahaniaeth fod llygad ei Hollwybodaeth yn melltenu trwy'r tywyllwch tew pan oedd y weithred yn cael ei chyflawnu. Os twylla hwna ddynion, mae yn bwrw y twylla Dduw, neu, ynte, nad oes Duw i gael.

Fy anwyl gyfeillion ieuainc, na feddyliwch lochesu mewn rhyw rodfeydd celwydd o'r fath hyn. Na feddyliwch glogynu unrhyw ddrwg weithred trwy ychwanegu un arall ati, ïe, llawer o honynt yn olynol, feallai. Nac ystyriwch hi o werth i dwyllo dynion, gan na ellwch dwyllo yr Hollwybodol Dduw. Cofiwch y geiriau dwys hyny: "Arglwydd, chwiliaist ac adnabuost fi. Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad; dealli fy meddwl o bell . . . . Pe dywedwn: Diau y tywyllwch a'm cuddiai; yna, y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti, ond y nos a oleua fel dydd; un ffunud yw goleuni a thywyllwch i ti."

Ymgeisiwch i ddwyn tystiolaeth gywir i'ch ymddygiadau eich hunain, ac i eiddo ereill. Os aberthwch eich hunain i dwyll a dichell yn awr, pa ryw fath fywyd a addawch i chwi eich hunain? O hau y gwynt chwi gewch fedi'r corwynt. Dyna'r desgrifiad o'r cyfiawn a rydd y Salmydd i ni: "Efe a dwng i'w niwed ei hun ac ni newidia"—efe a ddywed yr hyn a ä i'w erbyn ei hun, a saif ato. Efe a barch y gwirionedd serch i hyn fod er niwed dros amser ac yn ei amgylchiadau iddo ei hun.

3. Nid yn unig *dweyd* y gwir, ond gadael i'r *ymddygiad fod yn wirioneddol*. Mae modd twyllo heblaw â'r tafod. Mae'r ymddygiad yn llefaru yn ei iaith mor groew â'r tafod. Os bydd dyn yn ymddwyn fel hyn, tra y mae ei galon a'i fwriad ffordd arall, trosedda ddeddf gwirionedd. Hyn yw rhagrith. Proffesu parch at rywbeth tra nad oes

GRONYN O DEIMLAD PARCHUS

yn y fynwes. Ceisia ambell un weithiau lanhau ei hun trwy ddweyd "Ni leferais I un gair o anwiredd." Naddo â'r tafod, dichon, ond nid

oes fater am hyny. Buoch ddystaw, feallai, pan y dylasech lefaru. Gadawsoch i'ch ymddygiad lefaru, er na symmudai'r tafod. Nid yw hyn yn gwneyd y pechod ddim yn llai. Ni wyr cariad at onestrwydd a gwirionedd, unplygrwydd ac uniondeb, am ystrywiau o'r fath hyn. O! da chwi, ymwrthodwch â phob dichell iselwael o'r fath hyn, gan feithrin cariad at wirionedd yn y dyn oddifewn.

Os yn rhoddi lle yn eich ymddygiad i ereill gasglu fod genych barch i'r Beibl, darllenwch a chwiliwch ef. Os yn proffesu parch i grefydd, dangoswch eich bod yn barod i wneyd pa ryw aberth bynag ag a ofyna; dangoswch nad yw ei gorchymynion yn drymion yn eich golwg, a'ch bod mor ofalus, mor ddiwyd, ac mor selog, gyda'r achosion a ddaliant gyssylltiad â hi ag ydych gyda'ch gorchwylion a'ch galwedigaethau beunyddiol. Os yn rhoddi lle i ereill feddwl eich bod yn gyfaill i hwn neu'r llall, na fradychwch ddiffyg ymddiried ynddo. neu ddiffyg ffyddlondeb iddo, mewn dim a wneloch. Caffed yr ymddygiad lefaru yn gystal â'r tafod ond y gwirionedd.

Os yn berchen ar y symlrwydd cymmeriad hwn, byddwch yn berchen ar un o addurniadau mwyaf prydferth dynion ieuainc. Ni fydd ymrafael tufewnol yn eich annedwyddu. Bydd genych gydwybod lân a thawel yn gyfeilles wastadol. Cymhwyswch eich hunain, trwy y cariad hwn at wirionedd, at yr amrywiol ddyledswyddau y bydd rhaid i chwi eu cyfarfod maes o law, fel gwyr ac fel gwragedd—fel tadau ac fel mamau. Bydded eich gweddi chwi a'r eiddom oll, "Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a gwybydd fy meddyliau; a gwel a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragwyddol."

YSGRIFENWYR MAWRION AR WAITH.

Eisteddai Byron i lawr i ysgrifenu heb ddim rhag-fyfyrdod, a dylifai ei feddylddrychau gyda'i inc, ac awgrymai y llinell gyntaf y nesaf. Ond wedi i'r bryddest gael ei gorphen, ac yn ystod ei mynediad trwy y wasg, yr oedd yn barhaus yn cyfnewid a gwella, yn rhag-linellu ac yn ychwanegu. Yr oedd y copi cyntaf o'r *Giaour* yn gynnwysedig o 400 o linellau yn unig. Ychwanegodd at bob argraffiad newydd, nes iddo chwyddo, yn y diwedd, i yn agos 1,400 o linellau. Yn ystod argraffiad y *Bride of Abydos*, ychwanegodd 200 o linellau, a chyfnewidiwyd llawer o'r rhai gwreiddiol drosodd a throsodd drachefn.

Un o'r ysgrifenwyr mwyaf llafurus a chysson y mae genym hanes am dano oedd Southey. Yn un o'i lythyrau, dywed:—"Dychymmygwch fi yn y llyfrgell fawr hon o'm eiddo, o'r boreufwyd hyd giniaw, o giniaw hyd dê, ac o dê hyd swpper, yn fy hen got ddu . . . . yn eistedd o flaen fy narllenfa, a gallwch ddarlunio fy hanes. . . . Y mae fy ngweithrediadau mor gysson ag sydd bossibl. Tair tudalen o hanesiaeth cyn brecwast, yna, i adysgrifio copi i'r wasg, neu i wneuthur fy netholiadau a bywgraffiadau, neu beth bynag sydd yn

gweddu i'm hwyl, hyd amser ciniaw. O giniaw i dê, yr wyf yn darllen, yn ysgrifenu llythyron, yn gweled a darllen newyddiaduron, ac yn fynych iawn yn mwynhau hun cwsg. Wedi tê, âf at farddoniaeth, i gyweirio, ac adysgrifenu a chopio hyd oni fyddaf wedi blino, ac yna, troaf at unrhyw beth hyd swpper; a dyma fy mywyd, os nad yw yn un llawen, y mae etto mor ddedwydd ag y gallai calon ddymuno."

Mewn gwrthwynebiad a gwrthdarawiad i'r bywyd eisteddol hwn, yr oedd ei gymmydog a'i gydfardd Wordsworth. Cyfansoddai ei farddoniaeth yn ystod ei rodianau hirfaith yn y boreu ar hyd y mynyddoedd, yn cael ei amgylchynu gan y golygfeydd amgylchynol, a'r hyn y maent yn osod allan neu eu hawgrymu, y rhai oeddynt yn cael megys eu hysprydoli a'u gweithio allan yn ei amgyffrediadau, neu ei feddwl. Wedi dychwelyd adref, elai i'r gwely, a thra yn cyfranogi o'i frecwast, adroddai i ysgrifenydd wrth law.

I fyned oddiwrth y beirdd at ysgrifenwyr rhyddieithol, arferiad a chynllun Johnson oedd i fyfyrio a meddwl allan ei bwnc yn drwyadl cyn gosod pin ar bapyr, ond gair ar ol gair, fel yr ymddangosai yn argraffedig, yr hyn oedd yn rhwym o fod yn ymdrech, neu yn dasc dychrynllyd i'r cof o leiaf.

Y mae Mr. Trevelyan yn rhoddi yr hanes canlynol gyda golwg ar y modd yr ysgrifenai Macaulay ei hanes :—"Can gynted ag y cawsai i'w ben unrhyw amgylchiad neillduol yn ei hanesyddiaeth, eisteddai i lawr, ac ysgrifenai ymaith yr holl ystori gyda chyflymdra aruthrol, gan nodi i lawr y llinellau perthynasol i'r pwnc, fel yr ymddangosai gyntaf iddo y dylai gael ei drin a'i drafod, ac i sicrhau y cyfryw trwy osod i lawr mewn du a gwyn bob meddylddrych gynnygiai i'w feddwl fel y daethai allan yn union o'i ymhenydd bywiog i'w fysedd cyflym. Yr oedd ei ysgrifen, yn ei chyflwr presenol, yn ymddangos i bob llygad, ond llygad ei hunan, fel yn cynnwys tudalen ar ol tudalen o luniau traed brain, y rhai allent, ac a fuasent yn sicr o fod o gymhorth mawr iddo i wneyd y cyfanwaith yn agos a bod yn berffaith yn ei iawn bryd. Can gynted ag oedd Macaulay wedi dybenu y cynllun garw, dechreuai ei lanw i fyny ar gyfartaledd o chwech ochr o bapyr o ychydig faintioli bob boreu, wedi ei ysgrifenu mewn llaw mor fras, a chyda lluaws o ddileadau, fel yr oedd yr holl chwech tudalen, ar gyfartaledd, yn cael eu cyfyngu i ddwy dudalen o argraff neu *brint*. Galwai y rhan hon o'i waith ei "dasc," ac ni theimlai byth yn gyssurus heb ei fod wedi ei gyflawnu bob dydd. Anfynych y meddyliai gwmpasu rhagor, oblegyd yr oedd wedi dysgu trwy brofiad maith fod hyny yn gymmaint ag y gallasai ef ei gyflawnu yn ei dymhor goreu, ac oddieithr ei fod yn teimlo ei hun yn ei hwyl oreu, ni fuasai byth yn ysgrifenu o gwbl. Gosodai ei bin o'r neilldu pan na fuasai ei ddrychfeddyliau yn ffrydio allan yn naturiol. Ni fuasai yn caniatau i un frawddeg gael ei gadael yn llonydd hyd oni buasai wedi ei pherffeithio cystal ag y gallai. Buasai yn adysgrifenu pennod gyfan, gyda golwg i sicrhau gwell trefniant, ac i ail gorffori un frawddeg hirfaith, er rhoddi desgrifiad mwy hapus o'r hyn oedd yn ei feddwl. Treuliodd bedwar diwrnod ar bymtheg dros ei ddesgrifiad o alanasdra Glencoe, ac wedi y cyfan,

rhoddodd ddatganiad o'i anfoddlonrwydd i'r hyn oedd wedi ei gyflawnu."

Ni allai fod cyferbyniaeth mwy nodedig i'r modd llafurfawr hwn nâ'r cyferbyniad rhwng y dyn mawr hwn a Syr Walter Scott. Ysgrifenai ef gyda chyflymder rhyfeddol; ni safai ei bin yn llonydd am gymmaint ag eiliad oblegyd prinder gair neu ymadrodd. Os na fuasai yn ymgynnyg i'w feddwl gyda rhwyddineb, gadawai wagle, ac ymaith yr äi at yr hyn ddeuai i'w feddwl parth y gweddill. Yr oedd y gwaith o gyweirio yn ddiflas iddo ef, ac fel yr oedd y meddylddrychau yn fflachio o'i ymhenydd, gosodid hwy i lawr heb fyth eu cyfnewid. Gallasai ysgrifenu pan oedd y plant yn chwareu o'i amgylch, ac yn cadw stwr yn ei ystafell, ac hyd y nod pan siaradai â chyfaill, neu yn ngwyneb unrhyw ddylanwad cythryblus a swn aflonyddol. Cyfansoddodd rai o'i ddarnau goreu pan y gallesid meddwl na allasai osod pin ar bapyr, gan gymmaint o stwr gadwai y seiri maen a choed, paentwyr, ac ereill o'i amgylch. . . . Gwahanol ryfeddol yw y gwahanol a'r amrywiol ddylanwadau sydd yn dylanwadu arnom oll, ond yr oll yn ddiau er daioni. C. L.

PRIODAS

Mr. John Jones, London House, Aberafon, a Miss Rachel Bowen, Llundain.

A dyma hi, hen gyfaill pur, yn gywir fel y mynech!
Home Rule, o'r diwedd, wedi 'i chael, a'r eneth hael a garech
Yn brif weinidog ar eich tŷ, i'ch helpu i'w gadw'n daclus;
Bydd Ioan mwy'n ddeng waith mwy del yn nghwmni 'i Rahel serchus.

Holl *pros* a *cons* y pwnc o wraig fel dau 'sgolhaig drafodem,
Ar lawer nawnddydd hafddydd clir, a dyfyr yr ymgomiem;
O blaid ni gaem resymau res, a chyfres dda yn erbyn;
Ond pan yr enwid Bowen dlos, y *pros* orbwysai wed'yn.

'Roedd tafod ffraeth a llygad du yn llwyr orchfygu Ioan,
Darllenai'n glir yn ngrudd ei fun, nad da bod dyn ei hunan;
Ac yn ngoleuni'r ddwyrudd fâd, a threm y llygad hwnw,
A'i cyfaill anwyl dros y dw'r—mwy—gwr, ac nid mab gweddw.

Mae *dau* erioed yn well nag *un*, i gwrdd â blin drallodion,
A phob hapusrwydd chwydda'n fwy, o i ranu rhwng dwy galon;
Gwnewch brawf o'r hen egwyddor hon—eich bron fo'n nythle iddi,
A thry pob chwermod ddaw i'ch rhan yn fêl i'ch cwppan felly.

Yn awr mae *gwraig* a *chartref* cu i chwi yn eiriau'r galon,
Ac nid yn dermau gwag, disail, ar ddail y geiriaduron;
Mae dau air arall etto 'nol—rhai swynol yn mhob teulu,
Doed rhai'n, drachefn, i'ch rhan ar frys mewn melus *dada* a *mami*.

Awst y 3*ydd*, 1886. GRANELLIAN.

ADDYSGU YR IEUAINC.

(Darllenwyd y Papyr canlynol yn Nghyfarfod Blynyddol yr Undodiaid yn Cilie, Mehefin y 24ain, 1886, gan T. T.)

"Addysg yr ieuainc yn ein hegwyddorion gwahaniaethol fel Undodiaid." Hyny yw, a ydyw yn ddyledswydd arnom ni, ai nid ydyw, i ddysgu neu egwyddori ein plant a'n pobl ieuainc yn yr athrawiaethau hyny, ar gyfrif y rhai yr ydym ni, mewn ystyr, yn esgymmunedig oddiwrth holl enwadau ereill cred? A ydyw ai nid ydyw yn rhan o waith athrawon ein Hysgolion Sul i hyfforddi y rhai ieuainc sydd dan eu gofal yn ngeiriau'r ffydd, ac yn yr athrawiaeth iachus, yr hon sydd yn ol duwioldeb, sef Undodiaeth yn ol fel yr ydym ni yn credu? Dyna, Mr. Cadeirydd, fel yr ydwyf fi wedi deall y pwnc, a meddyliwyf nad oes eisieu papyr maith iawn i ddangos y rhesymoldeb o'n bod ni yn dysgu i ereill yr hyn a gredwn ein hunain.

Mae pob gwirioneedd o werth, ond y mae rhai gwirioneddau o fwy gwerth nâ'u gilydd, o herwydd eu bod yn dal agosach perthynas â dedwyddwch dynolryw yn gyffredinol. Ar dir difaterwch a diogi ysprydol yn unig y dibrisir gwirionedd; a'r rhai sydd ganddynt leiaf o wybodaeth o hono sydd fwyaf parod i'w fychanu. Nid oes, yr wyf yn gobeithio, neb yn y gynnulleidfa hon yn ystyried mai dibwys yw'r gwirionedd, beth bynag ei natur, ac yn enwedig y gwirionedd hwnw sydd yn gynnorthwyol i eangiad a pherffeithiad y natur ddynol mewn rhinweddau da, yr hyn sydd yn gwbl anhebgorol i'w dedwyddwch amserol a thragwyddol. "Pryn y gwir ac na werth; felly doethineb ac addysg a deall." Dyna ddywed y gwr doeth. Meddai ein Hiachawdwr, "Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd." "Chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi." Dywed Paul wrth Timotheus, "yr hwn," sef Duw, "sydd yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd." "Canys un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu."

Yn awr, yr ydym ni fel Undodiaid yn sefyll yn hollol ar ein penau ein hunain gyda golwg ar beth *yw'r* gwirionedd. Er mai yr un Beibl bendigedig sydd genym ni ac ereill, a'r un greadigaeth fawr yn agor ei thudalenau o'n blaen, nid ydym yn eu deall yn gyffelyb. Yr ydym yn credu mewn bod o Dduw fel ereill, ond y mae ein syniadau am dano yn dra gwahanol. Yr ydym yn credu yn Nghrist fel ereill, ac yn ei gyfryngwriaeth, ond nid yr *un* yw Crist yn ein golwg ni, ac nid yr un yw natur ei gyfryngwriaeth ag yr ymddengys i'n cyd-Gristionogion. Yr ydym yn credu yn y natur ddynol fel ereill, ond golygwn ei bod yn fwy urddasol ac yn uwch ei galluoedd (*capabilities*) nag y golygir hi gan y mwyafrif. Yr ydym yn credu mewn bywyd tragwyddol fel ereill, ond gwahaniaethwn gyda golwg ar yr ammodau y mae i'w etifeddu. Y mae, hefyd, amryw bethau ereill nad ydym yn cydolygu yn eu cylch; o ganlyniad, tra y credwn fod ein cyd-Gristionogion yn

gyfeiliornus, pa beth yw ein dyledswydd ni tuag atynt, a thuag at ein plant a'n pobl ieuainc ein hunain, a thuag at y gwirionedd ei hun? Ymddengys i mi fod llwybr ein dyledswydd yn amlwg o'n blaen. Rhodiwn ynddo.

Wrth fyned rhag fy mlaen tuag at y nod wyf wedi ei osod i lawr, gofynaf—Paham yr adgyweiriwn ein hen gapeli, ac yr adeiladwn rai newyddion hyd a thraws y wlad, mewn trefydd a phentrefydd, a hyny yn aml lle mae digon o addoldai i'w cael yn barod? Paham yr awn i'r drafferth a'r draul hyn? Oni byddai yn rhwyddach a rhatach i gynniwair i Eglwys y Plwyf, i gapeli yr Independiaid, a'r Bedyddwyr, a'r Methodistiaid, neu ryw enwad arall, yn ol fel y byddai y naill neu'r llall yn gyfleus? Y rheswm yw, ein bod fel Undodiaid yn annghydweled ar bynciau pwysicaf a sylfaenol crefydd, ac o herwydd hyny nas gallwn yn gydwybodol uno mewn addoliad croes i'n meddyliau ac annghydnaws â'n teimladau. Mae hwn yn rheswm digonol, ac yr wyf yn cymmeryd yn ganiataol ei fod yn un gwirioneddol. Yr ydym yn gwerthfawrogi ein syniadau gymmaint, fel y cyrchwn i'r addoliad yn Cilie, neu Rhydygwin, neu Cribin, neu Capel y Groes, &c., yn hytrach nâ rhagrithio a myned gyda'r lluaws. Mae hyn yn ganmoladwy iawn ynom, *os* felly y mae mewn gwirionedd. Gallwn addoli un Duw, ond nis gallwn addoli Trindod. Cyfeiriwn ein gweddiau gyda hyder mabaidd ac hyfrydwch mawr at Dad cariadlawn a thrugarog, yr hwn a rydd i ni faddeuant rhad ar ein hedifeirwch a'n hadnewyddiad bywyd; ond ni ennynir ynom yspryd gwir ddefosiwn gan y meddylddrych neu yr *idea* o Dduw fel gorthrymwr annhrugarog ac anfaddeugar, oddieithr yn gyntaf gael o hono gyflawn a mwy nâ chyflawn dâl. Golygwn y byddwn yn diraddio Duw wrth ddyrchafu Crist, a'i wneuthur yn ogyfuwch â'r Tad, ac yn uwch hefyd mewn cariad a thrugaredd. Yr ydym, hefyd, o'r farn mai ammod bywyd tragwyddol yw buchedd dda, ac mai'r dyn cyfiawn yn unig yw efe, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder.

O herwydd mai y cyfryw, a chyffelyb i'r cyfryw, yw ein syniadau crefyddol, yr ydym fel enwad yn ymneillduo nid yn unig od liwrth yr Eglwys Sefydledig, ond hefyd oddiwrth yr Ymneillduwyr eu hunain; ac felly, y mae genym ein capeli ein hunain, a'n cyfarfodydd ein hunain, megys yma yn Cilie heddyw, i gydaddoli yn yspryd y gwirionedd, yn ol fel yr ydym ni yn ei ddeall, ac i gydymannog i gariad a gweithredoedd da. *Ond, ond*, a ydym yn hollol ac yn wirioneddol y peth y dangoswn ein bod? Ai ar gais cydwybod yr ydym yma yn nghyd, ai ynte rywbeth arall sydd yn ein cymhell? Yr wyf yn ofni nad yw ein hymddygiad cyffredinol, wedi'r cyfan, yn ddigon o brawf fod ein daliadau crefyddol yn werthfawr yn ein golwg. Ar ryw adegau, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, traethwn ein barn grefyddol, ac ymresymwn drosti, ond sut wedi hyny? Pa beth wneir ar yr aelwyd gartref? Pa beth mewn ymddyddan gymdeithasol? Pa beth yn ein Hysgolion Sul? Yr wyf dan orfodiaeth i gyfaddef nad ydyw pob peth yma fel y dylai fod. Mae ein rhieni Undodaidd (wrth gwrs, gydag eithriadau,) yn esgeuluso dwyn eu plant i fyny yn eu hegwyddorion eu hunain, ac

felly yn celu os nid cystal â gwadu'r ffydd. Chwi, dadau a mamau plant, dynion rhagorol yn mhob ystyr arall, braidd, goddefwch i mi ddweyd yn garedig wrthych eich bod yn annghysson a beius ar y pen hwn. Mae yn eiddo i chwi gyfoeth o wirioneddau pwysig, mae yn eich meddiant yr "anchwiliadwy olud" fel y tybiwch, ond ni fynwch wneuthur eich plant yn gyffelyb gyfoethog. Ni fynwch siarad ac ymresymu yn nghlywedigaeth eich meibion a'ch merched ac ereill o fewn cylch eich dylanwad yn mherthynas i wahanol bynciau eich ffydd. Yr ydych fel canwyllau yn llosgi dan lestri. Yr ydych, trwy hyn, yn gadael maes y meddwl ieuanc yn noeth ac yn agored, fel y mae'r gelyn-ddyn yn cael pob cyfleusdra i hau efrau ynddo. Yr ydych yn aml yn colli pob gafael grefyddol ar eich plant a'r bobl ieuainc sydd o amgylch i chwi, ac yn dysgwyl wrthych am wybodaeth, ond yn ofer; o herwydd yn fuan syrthiant dan ddylanwadau rhai o'r pleidiau amgylchynol, y rhai ydynt yn fwy effro a ffyddlon gyda'u hachos. Mae natur yn cashau *vacuum* neu wagle, ac o ganlyniad, os na lenwir y meddwl â gwirionedd, fe'i llenwir â chyfeiliornadau. Os na ysgrifenwch chwi eich hunain y pethau a gredwch ar *blank sheets* meddyliau ieuainc eich plant yn fuan, ysgrifena rhywrai ereill arnynt y pethau *nad* ydych yn gredu. Ymddengys i mi mai peth hollol annaturiol, a dweyd y lleiaf, yw fod rhieni a phlant yn gwahanu oddiwrth eu gilydd, yn neillduol felly pan y mae hyny yn cael ei achosi gan ddifaterwch ac esgeulusdod.

Y mae yn ffaith, hefyd, nad ydyw y gwaith a wneir yn ein Hysgolion Sul, yn mhob man, yr hyn a ddylai fod er lledu ein hegwyddorion, ac estyn cortynau ein preswylfeydd. Mae yr hen gynllun o addysgu trwy holiadau ac atebion, neu trwy *gateciso*, wedi cael ei adael ar ol. Bu hwn, unwaith, yn dra chyffredin a llwyddiannus; ac yr wyf o'r farn y dylai rhywbeth o gyffelyb natur, neu gyda chyffelyb amcan, gael ei fabwysiadu etto. Y mae ein pobl ieuainc, yn awr yn gyffredinol, yn cael eu codi i fyny mewn dygn anwybodaeth o'r athrawiaethau *neilldual* a goleddwn fel plaid, ac felly, er yn Undodiaid o ran proffes, y maent yn analluog i "brofi y pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt." Nid dysgu'r ieuenctyd i ddarllen yn unig ddylai fod prif nod athrawon ein Hysgolion Sul. Mae hyn yn dda, ond nid yw yn myned yn ddigon pell; mae eisieu dwyn allan (*educate*) alluoedd y meddwl a'r deall; mae eisieu eu dysgu i resymu a barnu gwahanol athrawiaethau, fel y byddont yn abl i roddi rheswm dros y gobaith sydd ynddynt. Byddai yn fanteisiol pe gwnai ein hathrawon gyferbynu athrawiaeth ag athrawiaeth, a galw sylw eu hysgolheigion at y rhesymau yn erbyn y naill a thros y llall; yna, byddai'r athrawiaeth fwyaf rhesymol a mwyaf unol â'r "gair a'r dystiolaeth" yn debyg o gael ei derbyn, a'r llall, wrth gwrs, ei gwrthod. Yr wyf o'r farn y dylai pob athraw Ysgol Sul fod yn *enwadol*, a hyfforddi'r ieuenctyd sydd yn ei *glass* yn yr athrawiaethau hyny a ymddangosant iddo ef ei hun y mwyaf rhesymol ac Ysgrythyrol.

Wedi tyfu i fyny a'i yru o'r ysgol gan amgylchiadau, a dyfod o hono i gyffyrddiad à dynion o wahanol farnau hwnt ac yma, mae y sawl

fyddo wedi derbyn addysg briodol yn gallu amddiffyn ei farn ei hun, a sefyll ei dir nes ei *orchfygu*, os ei orchfygu o gwbl, gan resymau cadarnach ei wrthwynebwyr. O'r tu arall, drachefn, y sawl sydd yn myned allan o'r ysgol â'i feddwl yn wag, yn *vacuum* perffaith, a gymmerir yn gaeth gan yr *orthodox party*, oblegyd y mae yn hollol ddiamddiffyn yn ngwyneb yr ymosodiadau a wneir arno o bob tu; y mae fel y bluen ysgafn yn myned gyda'r gwynt y ffordd y byddo'n chwythu. Nid fel hyn y dylai Undodiaid gario eu hachos yn y blaen. Doder balasarn (*ballast*) yn mhob dyn, fel na byddo iddo gael ei gylcharwain gan bob awel dysgeidiaeth. Dewiswn I fod ein hathrawon yn yr Ysgol Sul yn dangos *normod* o aidd neu sel dros eu hathrawiaeth, yn hytrach na bod yn fud yn ei chylch fel pe b ai arnynt gywilydd o honi. Ond, meddai rhywun, cedwid llawer o blant allan o'n hysgolion, pe byddai yr addysg yn enwadol neu yn athrawiaethol. Yr wyf yn ateb, Dim o gwbl, oblegyd y mae gan yr *orthodox* eu hysgolion eu hunain, i'r rhai y maent yn ofalus yn anfon eu plant, ac ereill dan eu hawdurdod, i'w dwyn i fyny yn yr iawn ffydd. Nid oes genym ni siawns ar neb ond ein plant a'n pobl ieuainc ein hunain, ac ychydig bersonau diarddel y cawn gyfleusdra arnynt, weithiau. Rhaid cyfaddef fod ein brodyr Trindodaidd yn ymdrechu llawer mwy o blaid eu ffydd nâ ni, er y dywedwn mai ein ffydd ni yw yr un a draddodwyd unwaith i'r saint.

Rhag ofn i chwi feddwl fy mod yn gosod yr holl waith, a'r holl fai hefyd, ar ein gwŷr lleyg (*laymen*) a'n hysgolfeistri, yr wyf yma yn cyfaddef ein bod ni, fel gweinidogion, i raddau mwy neu lai, yn feius. Yr ydym yn gochelyd athrawiaethau yn ein pwlpudau a manau ereill yn fwy nag y dylem, ac yn pregethu ar destynau cyffredin a mwy poblogaidd. Yr ydym ni, i raddau, yn genedlaeth ddirywiedig, o'n cymharu â'n tadau yn yr oes o'r blaen; o leiaf, felly yr wyf fi yn teimlo, ac nid yw yn ormod o hunan-ymwadiad i mi gyfaddef hyn. Fel Paul yn Corinth gynt, felly ein tadau yn y cymmydogaethau hyn a osodasant i lawr syllaen yr eglwys Undodaidd; ond yr wyf yn ofni ein bod ni yn gorrwch-adeiladu yn rhy esgeulus. Ein tadau a ddyoddefasant bwys y dydd a i wres, sef David Jenkin Rees, John James, John Thomas, ac ereill; a ninau, yn ddigon annheilwng, a aethom i mewn i'w llafur hwynt. Dsgyned arnom ysgryd yr hen gewri Undodaidd gynt, a gweithiwn yn ddyfal a go dde, nes elo'r fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref—gref yn y gwirioneedd, ac mewn gweithredoedd da yn ogystal.

Dywed rhai fod mwy o ddiwg nag o dda mewn dysgu athrawiaethau i blant ieuainc. Credant fod hyny yn rhwystr ar ffordd y meddwl i dyfu ac ymdaadblygu i gyfawn nerth a maintioli, oblegyd cael o hono ei ddarostwng i fyned yn y blaen dan arwainiad ysgryd sectaraidd yn yr un *groove*, yn yr un cylchiad, yn ddymdonad a di-drei-yn-ol, *right* neu *wrong*, hyd y pen draw. Gwir na dylai y meddwl gael ei gaethiwo mewn un modd, ond cael o hono chwareu teg i ymddadblygu yn awyr iachus rhyddid, mewn newyn a syched parhaus am fwy o wybodaeth o'r gwirioneedd; a dywedaf y gall rhieni ac athrawon yr

Ysgol Sul ac ereill ddysgu pynciau ac athrawiaethau i'r bobl ieuainc heb gyfyngu dim ar eu rhyddid meddyliol fel y maent yn tyfu i fyny. Nid yn yr hyn a ymdrechir ddysgu i blant y mae'r *drwg*, ond yn yr *ysprydd*, a'r *dull* neu'r *modd* y dysgir ef. Mae ceisio *dychrynu* plant i gredu fel hyn ac fel arall yn niweidiol iawn, ac yn gais teg at gaethiwed gwirioneddol. Dyweder wrth y plentyn fod y bobl hyn a'r bobl yn hereticiaid, fod eu hathrawiaeth yn gyfeiliornus a damniol, ac nad oes gwirionedd cadwedigol ond genych chwi, yna fe lanwch feddwl y plentyn á dychryn a chasineb at bawb ereill; a bydd ofn arno, hyd y nod wedi dyfod i oedran, i fyned allan o'r llinell y mae wedi dechreu ei dylyn. O'r tu arall, dywedwch wrth y plentyn y peth yr ydych chwi eich hunain yn gredu, a dywedwch y rheswm paham y credwch fel hyn yn hytrach nag fel arall; ac annogwch ef i arfer ei ddeall, i gymharu pethau â phethau, i bwyso y rhesymau dros ac yn erbyn, i feddwl yn dda ac yn garedig am ddynion ereill o wahanol farn—dysgwch ef yn y modd hwn, mewn ysprydd mwyn ac uwchlaw pob cuhni sectol, yna ni bydd un caethiwed yn y byd; a phan y byddo'r plentyn wedi tyfu yn ddyn, os y gwel ei fod yn gamsyniol yn ei farn foreuol mewn rhai pethau, gwna yn ddibetrus a diofn ei newid. Yn unol a'r golygiadau hyn, carwn fod y bobl ieuainc oll yn cael eu dwyn i fyny mewn rhyw farn grefyddol; ac y mae yn naturiol iddynt, ar y cyntaf, i goleddu barn eu rhieni a'u hathrawon, a glynu wrthi hefyd hyd nes y caffont reswm digonol i'w thaflu o'r neilldu am un o well.

HEN NEWYDDIADUR.

Mor bell ag y gwn I, y *Cambrian* oedd y newyddiadur cyntaf i ymddangos yn Nghymru. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o hono yn Abertawe, Ionawr 28, 1804, ac yr wyf yn meddwl ei fod wedi parhau i ddyfod allan yn ddibaid o'r pryd hwnw hyd heddyw. Dygwyd ail argraffiad o'r rhifyn cyntaf allan yn ddiweddar, fel math o gywreinrwydd. Papyr bychan oedd ar ei ymddangosiad cyntaf, ac yr oedd ei bris yn chwe' cheiniog. Wrth gwrs, papyr Saesneg oedd.

Mawrth 3, 1810, y cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r *Carmarthen Journal* gan John Daniel, yr hwn a fu farw Ionawr 10, 1823, yn 68 oed, ac a gladdwyd yn Llangynor. Tebyg iawn mai

"SEREN GOMER"

oedd y newyddiadur wythnosol cyntaf a ymddangosodd yn yr iaith Gymraeg, sef oedd hyny, Ionawr 1, 1814, a pharhaodd i ddyfod allan hyd Medi 9, 1815. Ni ddaeth allan fel cylchiolyn misol hyd Ionawr 1, 1818. Mae ger fy mron yn bresenol gyfargraff o'r *Seren* wythnosol am ddydd Sadwrn, Medi 10, 1814, sef rhif 37 o'r Gyfrol I. Ei bris, chwe'cheiniog a dimai. Mae y *stamp*, neu y *duty* arno yn dair a dimai. Pris y papyr ei hunan felly oedd tair ceiniog. Fel hyn y mae y papyr yn desgrifio ei hunan:—"Seren Gomer, neu Hyspysydd Wythnosol

Cyffredinol dros holl Dywysogaeth Cymru. Argraffwyd a chyhoeddwyd gan David Jenkin, Abertawe, Swydd Forganwg. (Printed and published by David Jenkin, Castle-street, Swansea, Glamorganshire)." Rhyw damaid bach iawn yw—un *sheet* o bedair wyneb dalen o bump colofn yr un. Nid yw yn hanner cymmaint â phapyrau ceiniog y dyddiau presenol; ond y mae yn sicr yn arddangos, i'm tyb I, fwy o nodweddion newyddiadur da nag ambell un o'r rhai a welwn heddyw. Nid oeddynt, wrth gwrs, yn pellebru'r newyddion y pryd hwnw—yr oedd ganddynt reswm da dros beidio; ond er fod Llythyr Llundain wedi ei ddyddio "Dydd Iau, Medi 1," mae yn grynodeb cynnwysfawr ac yn ddyddorol. Gellir casglu sut yr oeddynt yn dyfod o hyd i'r newyddion hyn oddiwrth yr un gair "Globe" ar y gwaelod. Dyma baragraff:—"Daeth Madame Letitia Bonaparte i Leghorn (Eidal) ar yr 11eg o Awst, ac a hwyliodd oddiyno i Porto Ferrago, i ymweled ag Ymerawdwr Elba" (sic). Etto, "Y mae tŷ a dodrefn Tywysoges Cymru, y rhai ydynt yn y ddinas, i gael eu gwerthu yn y mis Hydref nesaf, yr hyn sydd yn cadarnhau'r son a ledaenwyd yn ddiweddar, sef fod angwyddoldeb (*absence*) ei Huchder Breninol yn y wlad hon yn debyg o fod yn hir." Beth debygwch chwi am "angwyddoldeb"? Cawn y ddau dudalen gyntaf yn gyfyngedig yn bennaf i newyddion tramor, ac yn ymddangos wedi eu casglu o'r papyrau Seisnig. Ceir newyddion cartrefol oddiyno yn mlaen yn gymmysg ag erthyglau bychain. Cynnwysa lawer o *letterpress*, ac y mae'r llythyren yn lled fan. Dyma rai o'r newyddion:—"Tra'r oeddid yn gwerthu dodrefn y diweddar Mr. Vaughan yn y Mwythig, a'r arwerthydd cyhoedd (*auctioneer*) yn dywedyd '*Yn myn'd, yn myn'd!*' yn ddisymwth, syrthiodd y llofft, ac yr oedd yr holl gymdeithas mewn munydyn *wedi myn'd* i'r gegin isod. Torodd un wraig ei morddwyd mewn dau o fanau wrth neu wedi myn'd i'r llawr."—"Boreu dydd Iau, y 18fed o'r mis diweddaf, pan oedd Mr. Thomas Edmunds gerllaw'r Mwythig, gyda'r dynion ar y maes, y rhai oeddynt yn pladurio haidd, efe a gymmerodd bladur ag oedd yn y cae, &c., a dywedodd wrth ei gymdeithion, 'Yn awr, mi a gymmygiaf wneuthur fy ngair yn dda,' yn nghylch yr hyn y bunsai eryn ddadl ychydig ddyddiau yn ol, ac heb betruso, efe a dorodd ugain ergyd neu bladuraid yn lan a chryno, yr hyn, pan fesurwyd yn ngwydd llawer o edrychwyr, a deg o'i wyr ei hun, oedd 62 llath a dwy droedfodd. Y mae Mr. Edmunds yn awr yn 63ain mlwydd o'i oedran.—*Carmarthen Journal.*"

"Dangosog Arlwy Gwledd (*bill of fare*) gywir i Lys Cynnorthwywyr y Gymdeithas Urddasol o Ganwyllwyr, Llundain, 1478:—

	£	s.	d.
Dau lwyn o gig llo, a dau lwyn o gig maharen (*mutton*) ..	0	1	0
Un lwyn o gig eidon	0	0	4
Dwsin o golomenod, a dwsin o wninged..	0	0	9
Un mochyn, ac un ceiliog dispadd (*capon*)	0	1	1
Un wydd a chant o wyau	0	1	0½
Un morddwyd (*leg*) maharen	0	0	2½
Dau alwyn o win Canary	0	1	4
Deunaw galwyn o gwrw cadarn	0	1	6

Ceir colofn o Enedigaethau, Priodasau, a Marwolaethau, heb ddyddiadau, dim ond "yn ddiweddar," "yr wythnos cyn y diweddaf," &c. —"Wythnos i ddoe, Boneddiges Thomas Harris, Ysw., Arianydd, Caerfyrddin, ar ferch."—Terfynwn ein desgrifiad gyda dyfyniad allan or golofn farddonol :—

"CERDD, HANES YSGWIER MORGAN, O SIR ABERTEIFI.

"Yn Sir Aberteifi, bu gynt etifedd cant punt yn y flwyddyn,
Ni welwyd ei hoywach ar hynt, wrth deithio y tair talaeth trwyddyn;
Fe yfai lawn ddigon i ddau, fe ganai mor grych a phib organ,
Pob ail air o'i geg oedd lw gau—ei enw—Ysgwier Sion Morgan.

"Fe froliai lle byddai bob awr yn nghylch ei hiliogaeth foneddig,
Ei hendad oedd berson tew mawr, a'i dad, byddai'n dwedyd, oedd feddyg,
Ei dad oedd ddyn didwyll, dinam, ond bod yn o dynor ei goryn,
A gwraig wych ryfeddol ei fam, er iddi arferu byw'n forwyn.

"O'r diwedd, hen Forgan, ei dad, fu farw, a Sion ga'dd i'w ddwylaw
Ei hunan ei hynod ystad!—dywedwyd na welwyd fawr wylaw!
Ymwisgai'n drwsiadus a sionc, cai wên unrhyw feinwen pan fynai;
A Wil, ei was bach, yn llawn sponc, hyd lanoedd y wlad a'i dylynai.

"Yn fuan, o gan' punt, ei gost a brifiodd yn bum' cant o loia',
Ond hyn i Sion fyddai yn fost, pa walch llawn o fywyd a feia?
Pwy ddichon fyw'n foethus ei fin, a bwyta, tebygwch, bob pigion,
Neu gara teg oneth a gwin yn ddigost? Dywedwch, fon'ddigion.

"Gwyr pawb fod y chwedl yn dra gwir, 'Ploseran ddarfyddant yn fuan,'
Aeth toc trwy ei dyddyn o dir, ac yno fe droe yn 'Sion druan;'
Do, gworthwyd y cyfan i gyd, a gwawdio'n ddiamhen wnae ffyliaid;
Ond Sion tua Llundain mewn llid ddiangoʼdd, rhag ofn y ceisbyliaid.

"'Rol hir rythu'i lygaid trwy'r dref dan feddwl am gawod o gywaeth,
Cyfarfu bun gymhwys ag e', a'i bwrs a ffansiodd ysywaeth!
'Rol hyn ymorolai am le, ond methai gael neb i'w gyflogi,
Can's er mai dyn anforth oedd e', 'roedd yn ei ymddygiad ddiogi.

"O'r diwedd, ryw ddiwsul brydnawn, mewn tafarn tra cabhai'i Groawdwr,
A'i gost o'i golledion yn llawn, bwriadodd yn sydyn droi'n sawdwr;
Rhyw gyfrwys hen filwr, am fael, a'i meddwai mewn gwendid â gwin da,
Ac yno, fe'i gyrodd i gael ei ddiben—i randir yr India.

"Chwi, fân etifeddion y wlad, ow cofiwch, a syniwch am Sionyn!
Ystyriwch (er maint eich ystad, er cynnal yn gryno bob gronyn),
Bod synwyr yn weddus i'r siol, a threfniad pob bwriad yn buraidd,
Yn lle porthi balchder a bol, byw'n feddw, a marw'n anmhuraidd.—B.G."

T. L. R.

NODYNAU GWASGAROG.

YMDDIRIED YN NUW.

"Mam," ebe merch fechan, "beth oedd Dafydd yn feddwl pan y dywedai, 'Cadw fi, O! Dduw, canys ynot yr ymddiriedaf'?"

"A ydych chwi yn cofio," meddai y fam, "y ferch fach welsoch yn eerdded gyda'i thad ddoe yn yr allt?"

"Oh, ydwyf, mam. Onid oedd hi yn ferch bert?"

"Yr oedd hi yn addfwyn a chariadus, ac yr oedd ei thad yn dyner iawn o honi, ac yn hynod gariadus iddi. A ydych chwi yn cofio beth ddywedodd pan ddaethant at y bont gul dros yr afon?"

"Nid wyf yn hoff o feddwl am y bont hyna, mam; y mae yn peru i mi fod yn syfrdan. Onid ydych yn credu ei bod yn beryglus iawn, dim ond y ddau blanc rhydd hyna wedi eu gosod drosti? Pe gosodai ei throed dipyn naill ochr, syrthiai i'r dwfr."

"A ydych chwi yn cofio beth ddywedodd?" gofynai y fam.

"Ydwyf, mam. Safodd yn syn am foment, fel pe byddai arni ofn croesi, ac yna, gan edrych i fyny yn ngwyneb ei thad, gofynodd ganddo i gymmeryd gafael yn ei llaw, a dywedodd, 'Chwi a gymmerwch afael ynwyf, fy anwyl dad; nid wyf yn teimlo yn ofnus pan ydych chwi yn cymmeryd gafael yn fy llaw.' Edrychai ei thad yn hynod gariadus arni, a chymmerodd afael dyn yn ei llaw, fel pe buasai yn berl anmhrisiadwy yn ei olwg."

"Wel, fy mhlentyn," meddai y fam, "meddyliwyf y teimlai Dafydd rywbeth yn debyg i'r ferch fach, pan yr ysgrifenodd y geiriau ydych wedi galw fy sylw atynt."

"A oedd Dafydd yn myned dros bont, mam?"

"Na, nid oedd yn myned dros y fath bont a welsom ni yn yr allt; ond yr oedd wedi dyfod at ryw le anhawdd a dyrys mewn bywyd. Yr oedd rhyw flinder a thrallod o'i flaen, yr hyn barai iddo deimlo yn ofnus, ac edrychai i fyny at Dduw yn union fel edrychai y ferch fach i fyny at ei thad, a dywedai, 'Cadw fi, O! Dduw, canys ynot yr ymddiriedaf.' Nid oedd hyn fwy na llai nà megys dywedyd, 'Gwel yn dda gymmeryd gofal o honof, fy nefol Dad cariadus; nid wyf yn ofni pan wyt ti gyda mi, ac yn cymmeryd gafael yn fy llaw." M—M.

PE Y GWYBUASWN.

Nid amser maith iawn yn ol y darfu i ni gyfarfod â boneddes, gwynebpryd yr hon ddygai dystiolaeth i ddyoddefaint mawr meddyliol. Wrth ymddyddan à hi, cawsom allan, yn fuan iawn, ei bod yn ymgrymu ac wedi cael ei gwasgu i lawr dan bwys galar nad ymddangosai y gallai gael gwared o hono. Dywedodd:—"Y mae yr Arglwydd wedi gosod ei law yn drwm arnaf. Y mae wedi cymmeryd oddiwrthyf oleuni fy llygaid, a ffon amddiffyn fy hen oedran."

Ac yna dywedodd, mewn ychydig eiriau, am farwolaeth ei mab, yr hwn oedd fachgen addawol, wedi ychydig oriau o gystudd, a therfynodd drwy ddywedyd :—"Oh, pe buaswn yn gwybod y gallai farw, mor wahanol y buaswn wedi ei ddwyn i fyny? Ni dderbyniodd yr un addysg grefyddol! Yr wyf wedi cael fy llyncu i fyny wrth elwa am y bwyd a dderfydd, fel wyf wedi esgeuluso y pethau pwysicaf a thragwyddol. Oh na wybuaswn!"

Y mae y profiad hwn yn siarad drosto ei hunan. Nid oes genym ond ychwanegu gair o gynghor i bawb sydd ganddynt law gyda golwg ar addysg a gwir les yr ieuainc—lles eu heneidiau. Oh, anwyl gyfeillion, mynwch weled fod eich plant yn cael eu dysgu yn foreu y ffordd i'r bywyd trwy Iesu Grist, y gwir Iachawdwr. Ceisiwch, yn gyntaf, gyfoeth teyrnas nefoedd i chwi eich hunain ac iddynt hwythau, ac yna fe ofala Duw am bethau is-raddol y ddaear.

Y PARCH. W. ELLERY CHANNING, D.D.

Nid oes nemawr deulu yn ein plith erbyn hyn llc mae rhyw aelod o hono yn gallu deall rhywfaint o Saesneg, nad oes yn ei feddiant gopi o weithiau Channing. Ond er mor gyfoethog mewn pethau da yw y gyfrol hono, mae arnom ofn nad yw hi ddim ond *ornament* fynychaf, ac nad oes fawr o ddarllen arni. Mae hyn i'w briodoli yn fynych i faintioli y gyfrol; mae yma orlawnder o bethau sylweddol, fel mae'n ymddangos yn ormod gorchwyl i ddarllen ac i feistroli y cwbl, ac felly, nid oes un ymgais yn cael ei gwneyd i ddarllen dim, a gadewir y llyfr yn rhy aml yn segur ar y *shelf*. Er mwyn cyfarfod â'r sefyllfa hon o bethau, nid cynllun drwg fyddai, pe byddid yn argraffu cyfrol o ddetholion, yn cynnwys y pethau goreu a mwyaf parhaol ag mae Channing wedi ysgrifenu. Tra yn dysgwyl am lyfr o'r fath, feallai y bydd y detholiad canlynol gan y Parch. W. C. Gannett yn ddefnyddiol. Cynghorwn ein darllenwyr, os ydynt yn ei theimlo yn ormod o *dask* i ddarllen yr oll o Channing, o leiaf i bigo allan y darnau canlynol, a'u darllen drosodd a throsodd. Wedi gwneyd hyny, bydd ganddynt syniad da iawn am Channing yn ei dri chymmeriad, fel (1) pregethwr, (2) diwygiwr crefyddol, (3) diwygiwr cymdeithasol. Er mwyn clywed (1) y *pregethwr* ar ei oreu, darllener "Likeness to God," "Imitableness of Christ's Character," "Love to Christ," "Honour due to all men," "The great purpose of Christianity," "The charge in Dwight's ordination," "The religious principle in Human Nature," "God revealed in the Universe and in Humanity." Er mwyn gweled (2) y diwygiwr crefyddol ar ei oreu, darllener "Introductory Remarks," "Unitarian Christianity," pregeth Baltimore, "The moral argument against Calvinism," "Letter on Creeds," "Self-denial," "Christianity a Rational Religion," "Spiritual Freedom." Er mwyn ei ddeall (3) fel diwygiwr cymdeithasol, darllener "Self-culture," "On the elevation

of the Working Classes," "Slavery," ac hefyd y traethodau ar Napoleon a Fenelon, yr olaf, fel y dywed ei fywgraffydd, yn ddarlun o hono ei hun heb yn wybod iddo. UNIT.

HENRY WARD BEECHER.

ER ys ychydig amser yn ol, cawsom y fraint o weled ac o glywed y gwr enwog hwn, ac yr ydym yn awr yn ddiolchgar ein bod wedi gwneyd rhyw ychydig aberth er mwyn hyny. Yr oedd enw Beecher yn adnabyddus i ni er ys blynyddau lawer; yr oeddem wedi darllen am Beecher, ac wedi darllen Beecher ei hun; ac ni theimlem un petrusder i'w restru fel pregethwr blaenaf yr oes. Ni siomwyd ein dysgwyliadau. Mae Beecher nid yn unig yn un o'r areithwyr goreu, ond mae hefyd yn feddyliwr o'r radd flaenaf. Gwna y cyfuniad hwn ef yn feistr pob math o gynnulleidfa; a phan y saif o'ch blaen, yn ddyn praff, golygus, hollol hunan-feddiannol, yr ydych yn teimlo fod cawr yn ymafael ynoch, ac y gall wneyd fel y myno â chwi. Traddododi darlith oedd ar yr achlysur y clywsom ef; ond mewn gwirionedd, pregethu, ac nid darlithio, ddarfu iddo wneyd. Pregethwr ydyw Beecher, ac nid yw yn bossibl iddo ddihatru ei hun o'r cymmeriad hwnw. Er mai ei destyn oedd "Teyrnasiad y bobl gyffredin," ni fu yn hir cyn rhedeg i linell ei addysg gyhoeddus o'r pwlpud, a chawsom rybudd digon penderfynol o hyny yn agos i ddechreu y ddarlith, pan y cyhoeddodd gyda'r pwyslais mwyaf effeithiol mai nid duwinyddiaeth oedd crefydd. Wed'yn, daeth y gwrthdystiad arferol yn erbyn dychrynfeydd Calfiniaeth, megys cosp dragwyddol, &c., a dangosodd mai gwirioneddau canolog Cristionogaeth oedd Tadoldeb Duw a brawdoldeb dyn. Yr oedd y diweddglo yn ogoneddus. Dywedodd fod yr hen feddwl am Dduw wedi ei sylfaenu ar y syniad o lywodraeth wladol—y brenin neu y *despot* ar ei orsedd yn llywodraethu â gwialen haiarn. Mae y meddwl newydd am Dduw wedi ei sylfaenu ar syniad y teulu. Yr oedd ei ddesgrifiad o'r fam yn noddi ei phlentyn yn ei mynwes, a'r fynwes hono yn agored iddo byth, er iddo droi yn afradlon, a'r portread o Dduw trwy yr oesau yn noddi dynoliaeth ar ei fynwes ei hun, yn un o'r pethau mwyaf tyner a theimladwy a glywsom erioed. Yr oedd yr athrawiaeth, yn ddiamheu, yn annerbyniol gan lawer oedd yn bresenol, a chawsom glywed hyny cyn y diwedd. Ar ol cynnyg pleidlais o ddiolchgarwch i'r darlithydd, cododd pregethwr Wesleyaidd i fyny ar y *gallery* i wrthdystio yn erbyn y ffaith mai gweinidogion Wesleyaidd ddarfu ddwyn Mr. Beecher i'r lle, fod cynnyrch y ddarlith yn myn'd i dalu dyled ar gapel Wesleyaidd, ac y byddai yn berygl i'r enwad Wesleyaidd golli ei gymmeriad Efengylaidd, a chael ei gyfrif yn gyfranog mewn heresi. Yr oedd cydymdeimlad y dorf gyda Beecher, a thra yr oedd y brawd yn siarad ac yn ysgwyd ei freichiau mewn modd cynhyrfus, dyma'r *gas* yn cael ei ostwng, a'r gynnulleidfa yn rhuthro allan. Cyn y dychwel Mr. Beecher i America, bydd wedi traethu ei genadwri yn mhob parth o'r

Deyrnas Gyfunol, ac ni synwn ei fod wedi rhoddi cyffroad newydd a nerthol i syniadau rhyddfrydig mewn crefydd. UNIT.

Y PARCH. HERBER EVANS.

MAE son am Beecher yn awgrymu i mi enw y Parch. Herber Evans, yr hwn sydd yn sefyll yn Nghymru fel mae Beecher yn America—yn dywysog y pregethwyr. Mae ei anerchiad ar achlysur cyfarfod Undeb yr Annibynwyr Cymreig, a gynnaliwyd er ys rhai wythnosau yn ol, yn Aberdar, o'n blaen, ac yr ydym wedi cael hyfrydwch mawr wrth ei ddarllen. Cawn brofion digon amlwg ynddo fod duwinyddiaeth yn beth symmudol hyd y nod yn Nghymru. Chwytha ryw awel *fresh* trwy yr oll. Mae Mr. Evans yn ymwneyd â chwestiynau bywiol, a hyny mewn dull bywiol. 'Does yma fawr o dduwinyddiaeth yn yr ystyr gyffredin, ond mae yn yr anerchiad ei lon'd o grefydd. Mae llawer darn o hono yn ein hadgofio o Channing, ac nid yw yn annhebyg fod Channing wedi cyfranu rhyw gymmaint i wneyd Mr. Evans yr hyn ydyw. Rhydd ef yr un pwys ar urddas y natur ddynol, ar ddyn fel y mae efe, ar ei werth yn ngolwg Duw; yr un pwys ar ddynoliaeth Crist; a dywed Mr. Evans mai y *secret* sydd i ennill y byd at Grist yw efelychiad llwyrach, ffyddlonach, o hono fel dyngarwr ar ran pob pregethwr a phob Cristion. Sylw arall sydd yn awgrymu ei hun i ni wrth ddarllen yr anerchiad yw fod yr iachawdwriaeth sydd yn cael ei dwyn oddiamgylch gan Grist wedi newid ei chanolbwynt. Yr hen ganolbwynt oedd y byd arall, a'r modd i ddianc rhag trueni yn y byd arall oedd pwnc mawr y weinidogaeth. Ond mae canolbwynt yr iachawdwriaeth erbyn hyn yn y byd hwn, ar y ddaear, yn y dyn personol, yn yr eglwys, ac mewn cymdeithas. Iechyd yr holl ddyn ydyw symmudiad pob drwg gwladol a chymdeithasol sydd ar ffordd ei gynnydd, a chyflenwad ei holl ddynoliaeth â'r dylanwadau sancteiddiol sydd yn deilliaw o'r ffynnonell ysprydol hono, sef Crist ei hun.

UNIT.

YN Y NEFOEDD.

Dywedodd hen wraig wrthyf, yn ddiweddar, yr hyn yr wyf wedi ei glywed o'r blaen, mai ein gwaith yn y nefoedd fydd "canu am y gwaed;" ac yr wyf yn methu a deall pa wedd y gwna hyny'r nefoedd y lle hyfryd y dychymmygwn ei fod. Dichon canu am y gwaed fod yn ddyledswydd, er nas gwn ar ba sail y credir hyny; etto, yr wyf yn methu gweled sut y gall fod yn orchwyl i weinyddu pleser trwy oesau dirif y nefoedd. Yr wyf yn cofio darllen am fab hirgoes y diacon yn dywedyd nad oedd efe ddim am fyned i'r nefoedd i chwareu telyn, a myned oddiamgylch mewn gwisg wen; ac nid wyf fi yn gallu dychymmygu ansawdd meddwl y dyn sydd yn awyddu i dreulio tragwyddol-

deb yn y nefoedd nac un man arall i "ganu am y gwaed." Yr wyf yn credu y bydd genym ragorach gwaith yn y nefoedd nâ chanu am y y gwaed. Q. Q.

CANU AM Y GWAED.

Ni fu yr offeiriaid erioed yn fwy gweithgar, feallai, nag ydynt heddyw. Yr oedd dau o honynt o'r dosparth canonaidd ar lan y môr, yn ddiweddar, ac er syndod i lawer, yr oeddynt yn gweithio yn ddiwyd bob dydd ar gynllun Byddin Iechydwriaeth, ac yn cynnal eu cyfarfodydd ar y traeth. Nid oedd eu duwinyddiaeth chwaith yn rhagori dim ar eiddo y Fyddin. Sawrai yn gryf o elfenau'r gwaed a'r tân, "Blood and Fire," fel y mae yn ffigro yn llenyddiaeth y Fyddin. Ni ellid llai nâ chymmeradwyo eu difrifoldeb, fodd bynag, gan nad beth oedd ar ol. Dysgwyliem well duwinyddiaeth oddiwrth ddau mor ddysgedig; ond pan ddaeth dyn meddw i ganu atynt, dywedasant dipyn o synwyr cyffredin wrtho ag y gallaswn I ei ddeall:—"Cerddwch adref, ac wedi cysgu eich hunan yn sobr, byddwch mewn gwell cyflwr i ganu am y gwaed." T. L. R.

Y WASG YN NGHYMRU.

Ni ddaeth y wasg i Gymru hyd yn ddiweddar iawn, mewn cymhariaeth. Dygwyd y wasg i Loegr gyntaf gan Caxton, yr hwn a gyhoeddodd ei "Game and Playe of Chesse" tua'r flwyddyn 1468, feallai yn gynt; tra ni chyhoeddwyd un llyfr Cymraeg hyd 1546, ac argraffwyd hwnw yn Llundain. Desgrifir y llyfr hwn fel hyn:—

"Beibl. Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg, Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arferadwy, a'r Gweddiau Gocheladwy ac Keingeu."

Tybir ein bod yn ddyledus am y llyfr hwn i Syr John Price, brodor o Frycheiniog.

Y mae peth amheuaeth yn mha le y bu argraffu gyntaf yn Nghymru; hawlir y clod, weithiau, i Gwrecsam, lle y dywedir fod "Holl Ddyledswydd Dyn" wedi ei argraffu yn 1718, ond y mae amheuaeth cryf ar hyn. Y peth tebycaf yw mai yn Nhref-Hedyn neu Adpar, Castellnewydd Emlyn, y sefydlwyd y wasg gyntaf yn Nghymru, a hyny mor ddiweddar â 1719. Y llyfr cyntaf oedd:—

"Eglurhad o Gatechism Byraf y Gymanfa," "Printiedig yn Nhref-Hedyn, gan Isaac Carter, dros Tho: Beynon, John Davies, Da: Davies, Tho: Mackaeg, Nich: Thomas, Ev: Morris. Ac a gyfieithwyd i'r Cymraeg, gan J. P. a T. J. 1719."

Cawn N. Thomas, wedi hyny, yn argraffydd yn Nghaerfyrddin, ei lyfr cyntaf hyd y gwyddom:—

"Gronyn o Had Mwstard: Argraffedig yn Nghaerfyrddin, gan N. Thomas, dros P. P. [Philip Pugh?] 1722."

Dyma'r ail, feallai :—" Llyfr Du y Gydwybod, a osodwyd allan yn Saesonaeg gan Andrew Jones, ac yn Gymraeg gan J. T. [sef Joshua Thomas, Llangeler,] Ebrill 29, 1723."

" 1723—Bwyd Enaid, &c., gan y Parch. David Lewis, Ficer Llangatwg. Argraffwyd yn Nghaerfyrddin, gan N. T."—*Revue Celtique.*

Mae y nesaf yn ddyddorol i ni fel enwad, gan y credir ei fod wedi ei gyfieithu gan weinidog cyntaf Llwynrhydowen. Nid ydys, fodd bynag, yn sicr o hyn, ac y mae'n bossibl, feallai, mai y cyfieithydd oedd Jenkin Jones, gweinidog Cilgwyn a Chaeronen.

" Llun Agrippa, neu'r o fewn ychydig Gristion wedi ei ddatguddio : wedi ei 'sgrifenru yn Seisonig, gan F. Mead, ac yn gymreig gan Jencin Jones. A'i brintio yng Nghaerfyrddin, gan N. Thomas dros Gristmas Samuel a Lewis Griffies. A.D. 1723." Mae diwedd y rhagymadrodd wedi ei arwyddo " Jencin Jones yng Ngheredigion, Hydref 30, O.C. 1723." T. C. U.

CODI TOCYN TREN.

Pan fyddoch yn myned i godi tocyn i fyned gyda'r trên, yr ydych fynychaf mewn brys gwyllt, ac y mae'r person sydd yn rhoi'r tocynau allan yn gwybod, ac weithiau yn cymmeryd mantais o, hyny. Yr oedd gwraig, yn diweddar, yn cyfaddef fod ei mab yn ennill rhyw bymtheg neu ddeunaw swllt yn ychwanegol i'w hur rheolaidd, yn unig trwy wylltineb a diofalwch yr ymdeithwyr, ac nid oedd hi'n siwr yn barnu llai nad eiddo ei bachgen hi oedd y cyfryw arian yn onest—nid eiddo y cwmni, wrth gwrs. Mae ganddynt reol i weithio wrthi. Adwaenant eu *customer*, a rhoddant y newid bob yn ychydig ar y tro, gan adael i'r person fyned i ffwrdd yn fynych cyn cael hanner ei newid. Os rhoddir chweugain am docyn grot, dechreuir rhoi'r newid gyda'r arian mân, rhoi dwy geiniog yn gyntaf, yna'n araf chwe' cheiniog, feallai, gan ddysgwyl bob tro i'r person fyned i ffwrdd. Mae yn rhy ddiweddar i ddychwelyd ar ol myned i ffwrdd unwaith, gan ei bod yn rheol y Cwmni nas gellir cymhwyso un cam yn ol llaw. Rhaid i bob un, gan hyny, fynu gwybod cyn myned o'r fan faint yw pris y tocyn, ac wed'yn edrych yn fanwl a gofalus faint o newid mae yn gael yn ol.

Q. Q.

STORIO.

Meddyliwch am ddyn yn dodi heibio ddigon o ddillad a digon o fwyd i barhau am 300 mlynedd, pa les fyddai iddo, gan na all efe fyw o bellaf ddim dros ryw 70 neu 80 mlynedd? Meddyliwch ei fod yn dodi heibio 70,000 o barau o esgidiau, i ba ddyben y byddai, os na allai wneuthur defnydd ond o'r ganfed ran o hyny. Byddai yn yr un cyflwr â'r dyn a fyddai'n prynu cant o balasdai, tra na allai fyw ond mewn un. Mor wrthun yr ymddangosai pe'r oll ellid ei ddywedyd am

ddyn tra'n fyw oedd hyn—ei fod wedi treulio ei holl fywyd yn casglu a dodi heibio mewn ystorfa 60,000 o gadeiriau *mahogany*, y rhai ni fwriadwyd erioed i'w defnyddio mewn ystafelloedd, neu 70,000 o drowseri, y rhai nid oeddynt byth i gael eu gwisgo! A pha le mae'r gwahaniaeth, mewn rhesymoldeb neu ddefnyddioldeb, rhwng hyny a'r storio o filoedd o aur, y rhai nid oeddynt byth i'w dwyn allan er gwasanaeth dynolryw? Nid oes un ymddygiad o eiddo dynion yn fwy gwrthun—nad pa mor gyffredin—ond i ni edrych arnynt trwy spectol rheswm. THOMAS DICK.

DETHOLIADAU O'R BEIBL.

(Parhad o Rifyn Awst, tud. 190*).*

Hen Destament.—Salmau lxxx., lxxxiv., lxxxv., lxxxvi., xci., xcii. (gadawer allan 7—11), xciii., xciv. 17—22; xcv., xcvi., xcvii., xcviii., xcix., c., cii., 11—27; ciii. civ., cvii., cxi., cxii., cxiii., cxv., cxvi., cxviii. 1—5, 14, diwedd; cxix., 1—24; cxix., 25—48; cxix., 49—72; cxix. 73—96; cxix. 97—120; cxix. 121—152; cxix., 153, diwedd; cxxi., cxxii., cxxx., cxxxiii., cxxxv. (gadawer allan 8—12); cxxxviii., cxxxix. (gadawer allan 13, 15, 16, 19—22), cxliii. 1—11; cxlv., cxlvi., cxlvii., cxlviii. *Testament Newydd.*—Actau iii., vi., viii. 14, diwedd; ix. 1—22; x. 1—35; xvii. 10, diwedd; xx. 17, diwedd; xxiv., xxvi. Rhufeiniaid i. 1—25; ii., vi., viii., x., xii., xiii., xiv.

(I'w barhau.)

Manion a Hanesion.

Y dydd o'r blaen, yr oedd y Parch. William James, Llandyssul, yn myned i bregethu i ryw angladd i gapel Llwynrhydowen, ar foreu garw iawn, pryd y cyfarfu â bardd ar y ffordd, yr hwn a gyfarchwyd gan y Parchedig yn y modd a ganlyn:—"Dyma gafod lân," ebe'r Parchedig. "Ie, Syr," ebe'r bardd, "ond,

"Er pob anaf geir gan gafod,—Willie
A welir yn dyfod;
Nawdd y glyn, 'e haedda glod,
A buchedd yn ddibechod.

"Un mâd yn haeddu *medal*—yw Wil-
A welwyd mor ddyfal; [liam,
Er chwilio De, gorchwyl yw dal,
Er costi, un hanner cystal."

—*Hebog.*

CRIBIN.—Mae Mr. David Evans, o Goleg Caerfyrddin, wedi derbyn galwad unfrydol oddiwrth yr eglwys hon i fod yn olynydd i'r diweddar Barch. W. E. Davies. Mae tymhor Mr. Evans yn y coleg newydd derfynu. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei gylch newydd. Mae ganddo faes lle y gall dyn ieuanc llawn sel a brwdfrydedd wneyd llawer iawn o ddaioni.—*Cyfaill.*

I Thomas Thomas, Blaenbronfain, pan dorodd ei goes, hanes marwolaeth yr hwn a ellir ei weled yn YR YMOFYNYDD am Awst, 1886, tud. 192.

Dyn ydwyf o dan adfyd,—a hynod
Yw hanes fy mywyd;
Yn drwstan cefais dristyd,
Dirfawr boen cyn darfu'r byd.

—*Hebog.*

Y NOS OLAF.*

Un nos y sydd—nos angeu yw—
A'n dyg o'r byd i'r nef i fyw.
Tywyllwch bedd a dyr yn wawr
Dros fryniau'r wlad sydd hwnt i'r llawr.

Ei mantell ddu dros f' enaid prudd,
Am ennyd fer, taenedig sydd;
Ond credu'r wyf mai buan iawn
Yr egyr arnaf haf-ddydd llawn.

Cymmylau duon sydd yn awr
Yn duo'm nen tra ar y llawr;
Ond yn y wlad sydd hwnt i'r llen
Goleuni pur amgylcha'm pen.

Wrth deimlo grym 'r Iorddonen ddu,
Daw braw i'm bron, ac ofnau lu:
O f' enaid gwan! rho'th bwys ar Dad
A rydd it' help yn ddinacâd.

* Cafwyd yr uchod yn mysg papyrau y Parch. W. E. Davies. Dywed y Parch. John Davies, Alltyplaca, iddo eu cyfansoddi yn ystod y gauaf diweddaf, ac os ydyw yn cofio yn iawn, efelychiad ydynt o ryw ddarn Saesneg. Canwyd hwy mewn modd tyner ac effeithiol iawn gan y dorf fawr oedd yn bresenol ar achlysur y bregeth angladdol a draddodwyd yn Llwynrhydowen, dydd Sul, Medi 12fed, gan yr ysgrifenydd.—W. J.

DOWLAIS.—Cynnaliodd eglwys Undodaidd y lle hwn ei gwyl dê flynyddol i'r plant eleni etto, yn ol ei harfer, yn Pentwyn, Dolgaer. Cafwyd gwyl lewyrchus dros ben, ac yr oedd yr hin yn ddymunol iawn y diwrnod hwnw, yn nghanol tywydd garw. Yr oedd fel pe yn wyrthiol, er mwyn i blant, pobl ieuainc, a hynafgwyr gael mwynhau eu pleser am un diwrnod. Yr wyf yn meddwl fod pawb wedi mwynhau eu pleser yn ol eu harchwaeth.—*Dewi Mai.*

PRIODASAU.

Awst yr 28ain, yn Mhantdefaid, yn mhresenoldeb y cofrestrydd gan y Parch. T. T., Mr. Samuel Evans, Glandwr, a Miss Elizabeth Jenkins, Gwar-llwyn-oidos.

Awst yr 31ain, yn Mhantdefaid, yn mhresenoldeb y cofrestrydd, gan y Parch. T. T., Mr. Evan Walters, Gorrig Farm, a Miss Mary Thomas, Ffynnon Saer.

Bu Samwel ac Evan yn lwcus rhyfeddol
Wrth ddewis eu gwragedd, yn ol barn y bobol;
A minau ddywedaf—pwy all wrthddywedyd?
Fod 'Liza a Mary yn lwcus iawn hefyd.
—*Ben.*

Marwgofion.

Mehefin yr 2il, yn 11 oed, Elizabeth Davies, Ty'ncelyn, Llysfaen, Llanwnen. Claddwyd hi y dydd Sadwrn canlynol, yn mynwent y plwyf. Pregethodd y Parch. T. T. yn y tŷ annedd.

Awst y 1af, Benjamin Thomas, Maes-y-mwnci, Llandyssul, yn 78 oed. Claddwyd ef yn Mhantdefaid y dydd Mawrth canlynol, a phregethodd y Parch. T. T. Hen wr diniwed iawn oedd yr ymadawedig, ac aelod o gynnulleidfa Pantdefaid. Bydded i'w weddw a'i blant fod yn ddiolchgar am iddo gael byw cyhyd.

Awst y 27ain, yn 70 oed, bu farw John Jones (Jacki'r Crydd), Cribin, gynt o Ty'ncelyn, Llysfaen. Yr oedd wedi bod yn glaf o'r parlys am flynyddau lawer. Claddwyd ef yn Llanwnen y dydd Mawrth canlynol. Pregethodd y Parch. T. T. yn nghapel y Cribin cyn cychwyn.

Awst y 27ain, yn 47 oed, Ann Timothy, Pwllygeletsh, Llandyssul. Dyoddefodd am flynyddau oddiwrth ddirboenau y *rheumatism*, a thybiwn ei bod yn nesu at y terfyn gan groesawi ei rhyddhad. Dangosodd amynedd mawr o dan ei hir gystudd, ac yr oedd y grefydd a broffesai wedi bod yn gynnaliaeth ddigonol iddi o dan faich gwastadol llesgedd a gwendid. Bu farw fel y bu fyw, mewn llawn ymddiriedaeth yn y Tad nefol. Claddwyd yn mynwent Llwynrhydowen y Llun canlynol, pryd y gweinyddwyd gan y

Parch. T. Thomas yn absenoldeb y gweinidog.

Awst yr 31ain, ar enedigaeth plentyn, Letitia Thomas, Crown Inn, Llanbedr, yn 44 mlwydd oed. Ar ddydd ei hangladd, gwasanaethwyd gan y Parch. John Thomas, Soar, Llanbedr, a chladdwyd yn mynwent y plwyf. Duw fyddo yn dirion wrth briod yr ymadawedig a'i merch fechan.

Awst yr 31ain, David Enoch, Rumni, yn 61 mlwydd oed. Yr oedd yn enedigol o ardal Ystrad, Dyffryn Aeron, ond yn Rumni y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd, ac yno bu yn wasanaethgar i bawb a ddelent o fewn cylch ei ddylanwad, yn hynaws, yn garedig, ac yn ffyddlon i'r gwirionedd, nes y daeth enw Dafydd Enoch yn gyfystyr â'r oll sydd yn iawn ac yn dda. Yr oedd yn Undod'wr heb gywilydd arno o'r enw. Yn moreu ei fywyd, cerddai drwy hindda a thrwy ddryghin o Rumni i'r Hen Dy Cwrdd, Cefn, bron hob boreu Sul. Yr oedd yn un o'r aelodau mwyaf selog, ac mor barod â neb y gwyddom am dano i roddi "rheswm am y gobaith" oedd ynddo. Nid gwrandawr yn unig oedd, ond pwysai a mesurai yr oll a glywai, nes y daeth yn hollol hyddysg yn egwyddorion Undodiaeth, fel y dysgid hi gan yr hen dadau. Llawer gwaith y darfu iddo, ar ol y cwrdd, ofyn i ysgrifenydd y llinellau hyn am fenthyg y bregeth oedd newydd glywed, fel y gallai ei darllen a'i myfyrio yn ei hamdden gartref. Bu hefyd yn ddosparthwr Yr Ymofynydd am flynyddau lawer, ac yn ystod ei swydd fel y cyfryw, gwelodd gladdu y rhan fwyaf o Undodiaid gweithgar Rumni; ac yn ei farwolaeth ef, yr ydym yn colli bron yr olaf o'r ffyddloniaid hyny a fuont yn enwog yn hanes yr enwad yn y parth hwnw o'r wlad. Mwynhaodd iechyd drwy ei oes, a daeth angeu ato yn ddisymwth pan oedd yn dychwelyd adref ar ol gwaith y dydd, a bu farw ar yr heol. Y dydd Sadwrn canlynol, dygwyd ei weddillion marwol gyda'r trên i'r Cefn, a chladdwyd ef wrth ochr yr hen deml a fu yn gyssegredig iddo am amser hir. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan J. Hathren Davies. Nawdd Duw fyddo ar ei weddw unig a'i ddwy ferch sydd wedi eu gadael yn amddifaid.

Medi yr 8fed, yn 27 oed, John Hughes, mab William a Margaret Hughes, Cross Keys, Cefn, a brawd-yn-nghyfraith i'r Parch. J. Hathren Davies. Dechreuodd glafychu tua blwyddyn yn ol, ac yn fuan gwelwyd fod y darfodedigaeth wedi gafaelyd ynddo; ac er holl ymdrechion meddygon goreu yr ardal, gwanhau yn raddol ydoedd, ac ar ol cystudd maith a chaled, daeth angeu, fel cenad tyner o wlad y goleuni, i'w ryddhau o'i boenau a'i gystuddiau. Un tawel a llariaidd oedd ein cyfaill ymadawedig, ac yn anwyl i bawb a'i hadwaenai. Y dydd Sadwrn canlynol, daeth tyrfa fawr yn nghyd i gludo yr hyn oedd farwol o hono i fynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Nerth a gaffo'r teulu i alaru yn obeithiol am eu bachgen a gafodd ei symmud yn mlagur ei ddyddiau, a Duw fyddo yn ffynnonell o gyssur a dyddanwch iddynt.

Medi y 9fed, yn 16 mlwydd oed, Martha, merch fechan John ac Elizabeth Jones, gynt o Gwmbargoed, Dowlais, ond yn awr o New Tredegar. Cafodd gystudd caled iawn, ond dyoddefodd y cyfan yn dawel a dirwgnach. Y dydd Llun canlynol, dygwyd ei chorff gyda'r trên i'r Cefn, a chladdwyd hi yn ymyl ei pherthynasau yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. W. J. Davies, Dowlais, a J. Hathren Davies, Cefn. Addewidion gwerthfawr Efengyl yr Iesu fyddont yn help i'r rhieni i ymddal o dan yr amgylchiad chwerw.

Medi y 14eg, Morfudd, merch Thomas a———Hopkins, Mount Pleasant St, Aberdar, yn flwydd oed. "Aeth diniweidrwydd at ei Dduw."

Medi y 14eg, yn 3, David St., Aberdar, ar ol cystudd maith a chaled, yr hwn a ddygodd gyda thawelwch ac amynedd canmoladwy, Sophia Howells, yn 22 oed. Caffed ei mam (mae ei thad T. D. Howells wedi marw er ys blynyddau) a'r plant fodd i fod yn dawel, ac wrth gofio am rinweddau lluosog yr ymadawedig, i obeithio. Yr oedd hi wedi meddwl llawer am y dyfodol, ac yn teimlo'n barod ac yn dysgwyl. Bu yn aelod ffyddlon yn yr H.D.C., a gwelir ei heisieu yn hir, gan nad oedd ei lle byth yn wag, ac yn yr Ysgol Sul ac yn yr Ysgol Gân, yr oedd yn ddefnyddiol iawn. Gwasanaethwyd yn y capel ac yn y Cemetery gan y gweinidog (Preg. xii. 1).

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.